Hysbysiad Prosesu Teg Ysgolion a Cholegau

Prifysgol De Cymru yw'r rheolydd data ac mae wedi ymrwymo at ddiogelu hawliau unigolion mewn perthynas â Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd.

Mae gan Brifysgol De Cymru Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r Swyddog trwy e-bostio dataprotection@southwales.ac.uk

Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?

Mae'r Brifysgol, trwy ei weithrediadau Marchnata a Denu Myfyrwyr, yn casglu data personol at ddibenion cynghori, hysbysu a chefnogi unigolion sydd wedi mynegi diddordeb mewn derbyn cefnogaeth gan Dîm Denu Myfyrwyr Prifysgol De Cymru.

Gellid casglu'r wybodaeth ganlynol - enw, manylion cyswllt (ysgol, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost), maes pwnc o ddiddordeb ynghyd â dewisiadau cyswllt er mwyn i'r Brifysgol wybod sut mae unigolion yn dymuno i ni gysylltu â hwy.

Pam rydym yn casglu'r wybodaeth yma?

Caiff data personol ei brosesu er mwyn darparu unigolion â gwybodaeth am y gwasanaethau y gallwn eu darparu i ddarpar fyfyrwyr, athrawon, rhieni ac ysgolion a cholegau yn fwy cyffredinol, am Addysg Uwch ac astudio ym Mhrifysgol De Cymru.

Lle mae cydsyniad wedi cael ei roi, bydd data personol yn cael ei brosesu i hyrwyddo ein gwasanaethau ac i ddarparu gwybodaeth y gallai fod o ddiddordeb i'r unigolyn.

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu?

Mae'r Brifysgol yn cadw'ch gwybodaeth oherwydd eich bod wedi cael eich nodi fel y prif gyswllt rhwng y Brifysgol a'ch ysgol.

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu?

Mae'r Brifysgol yn cadw'ch gwybodaeth oherwydd eich bod wedi cael eich nodi fel y prif gyswllt rhwng y Brifysgol a'ch ysgol.

Ystyrir bod gan y Brifysgol budd cyfiawn i brosesu'ch manylion er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf atoch am UCAS, Gwybodaeth Addysg Uwch, Cyngor a Chyfarwyddyd, Diwrnodau Blasu pwnc-benodol,

Dosbarthiadau Meistr, Diwrnodau Agored a digwyddiadau eraill PDC am resymau yn ymwneud â'ch rôl.

Pe dymunwch dad-danysgrifio ar unrhyw adeg, gallwch wneud hynny trwy e-bostio schoolsandcolleges@southwales.ac.uk.

Pwy yw'r derbynyddion neu'r categorïau o dderbynyddion?

Mae aelodau o staff yn y Brifysgol yn derbyn data personol er mwyn gallu darparu'r wybodaeth a geisiwyd yn unig.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosib y bydd y Brifysgol yn defnyddio gwasanaethau trydydd parti i ymgymryd â thasg ar ei ran. Lle mae hyn yn angenrheidiol, bydd y wybodaeth yn cael ei darparu at ddibenion cyflawni tasg yn unig a bydd yn cael ei wneud dan amodau cytundeb.

Unrhyw drosglwyddiadau i wledydd eraill a'r trefniadau diogelwch sy'n bodoli

Bydd data personol yn cael ei gadw o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Lle mae unigolion yn cymryd rhan mewn sgwrs fyw ar-lein, caiff y data ei brosesu o fewn Unol Daleithiau America. Caiff y wybodaeth ei brosesu gan gwmni sydd wedi cytuno i Fframwaith y Darian Breifatrwydd.

Cyfnod dargadw data

Caiff data personol ei storio yn unol â'n hamserlen dargadw.

Hawliau unigolion

Os yw'r unigolyn wedi darparu cydsyniad i'r Brifysgol brosesu data personol, yna mae ganddynt yr hawl i dynnu'r cydsyniad hwnnw yn ôl hefyd. Cysylltwch â schoolsandcolleges@southwales.ac.uk pe dymunwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl.

Mae gennych yr hawl i gael mynediad at eich data personol, i wrthod prosesu'ch gwybodaeth bersonol, i gywiro, dileu, cyfyngu ar a mynd â'ch gwybodaeth bersonol.

Ewch i dudalennau Diogelu Data y Brifysgol am ragor o wybodaeth am eich hawliau.

Dylid anfon unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-

Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol
Prifysgol De Cymru
Pontypridd
CF37 1DL

E-bost: dataprotection@southwales.ac.uk

Diogelwch data

Mae cyfraith Diogelu Data yn gofyn ein bod yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hynny y bydd eich cyfrinachedd yn cael ei barchu ac y bydd mesurau priodol yn cael eu cymryd i atal mynediad neu ddatgeliad anawdurdodedig. Aelodau o staff sydd angen mynediad at rannau perthnasol o'ch gwybodaeth neu'ch holl wybodaeth bydd yr unig rai â chaniatâd i wneud hynny. Bydd gwybodaeth amdanoch ar ffurf electronig yn destun cyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill, tra bydd ffeiliau papur yn cael eu cadw mewn mannau diogel gyda mynediad rheoledig.

Hawl unigolion i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych yn anfodlon gyda sut y proseswyd eich data personol gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn y lle cyntaf, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
www.ico.org.uk